OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1756

# Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004

## RHAN IV —

## RHEDEG CYNLLUNIAU LLEOLI OEDOLION

**Ymweliadau gan y darparwr cofrestredig**

**23.**—(1) Pan fydd darparwr cofrestredig yn unigolyn nad yw'n rheoli'r cynllun, rhaid iddo ef ymweld â phrif swyddfa'r cynllun yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Pan fydd y darparwr cofrestredig yn gorff, rhaid i'r canlynol ymweld â phrif swyddfa'r cynllun yn unol â'r rheoliad hwn —

(a) yr unigolyn cyfrifol;

(b) cyfarwyddwr neu berson arall sy'n gyfrifol am reoli'r cynllun, ar yr amod bod y cyfarwyddwr neu'r person arall yn addas i ymweld â'r swyddfa; neu

(c) cyflogai neu aelod o'r corff nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rhedeg y cynllun, ar yr amod bod y person yn addas i ymweld â'r swyddfa.

(3) Rhaid i ymweliadau o dan baragraff (1) neu (2) ddigwydd o leiaf unwaith bob chwe mis.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig gynorthwyo gofalwyr lleoliadau oedolion y mae wedi lleoli oedolyn gyda hwy a chynorthwyo'r oedolion hynny i roi'u barn am y cynllun at ddibenion ymweliadau a gynhelir o dan y rheoliad hwn.

(5) Rhaid i'r person sy'n ymweld —

(a) cyfweld â'r gofalwyr lleoliadau oedolion hynny a'r oedolion perthnasol a'u cynrychiolwyr sy'n dymuno cael eu cyfweld at ddibenion yr ymweliad, a rhaid i'r cyfweliad gael ei gynnal yn breifat os yw'r gofalwr neu'r oedolyn yn gofyn am hynny;

(b) archwilio mangre'r swyddfa, ei chofnod o ddigwyddiadau a gedwir o dan baragraff 4 o Atodlen 4 a'i chofnod o gwynion a gedwir o dan baragraff 5 o Atodlen 4; a

(c) llunio adroddiad ysgrifenedig ar sut mae'r cynllun yn cael ei redeg.

(6) Rhaid i gyfweliad y cyfeirir ato ym mharagraff (5)(a) gael ei gynnal yng nghartref y gofalwr lleoliad oedolion os yw'r gofalwr neu'r oedolyn yn dymuno hynny.

(7) Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi copi o'r adroddiad y mae'n ofynnol ei wneud o dan baragraff (5)(c) i —

(a) rheolwr cofrestredig y cynllun y mae'n rhaid iddo gadw'r adroddiad ym mhrif swyddfa'r cynllun; a

(b) o ran ymweliad o dan baragraff (2) i bob un o'r cyfarwyddwyr neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r corff.